South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Bwletin 2 Ionawr 2008

Gwaith y consortiwm - Cynnydd wrth roi'r Cynllun Strategol Dros Dro ar waith

Mae'r gwaith yn datblygu'n dda ar roi'r Cynllun Strategol Dros Dro ar waith ar gyfer gweithio fel consortiwm, y cytunwyd arno gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion ac sy'n nodi allbynnau a deilliannau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Mae'r gwaith yn cael ei gyflawni gan swyddogion proffesiynol o bob un o chwe awdurdod lleol swamwac, sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn Grwpiau Gweithrediadol. Mae manylion y grwpiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys eu cyfrifoldebau, ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.swamwac.org

Bydd pob bwletin yn cynnwys newyddion am weithgareddau a chyflawniadau gwaith y consortiwm a chyfeirir at rai datblygiadau diweddar yma.

Cynllun Peilot Athrawon Siartredig

- Mae'r consortiwm wedi llwyddo yn ei dendr i CACC i ddatblygu a rhedeg modiwl craidd peilot ar Hunanwerthuso, Myfyrio a Datblygiad Personol.
- Mae'r modiwl ar gyfer ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth ac arweinwyr canolig, a bydd yn cael ei gyflwyno rhwng Chwefror a Mehefin 2008.
- Yn dilyn cais i CACC am gymryd rhan, mae pymtheg o athrawon, naw cynradd a phump uwchradd, o ysgolion ar draws awdurdodau lleol swamwac wedi cael eu derbyn.
- Bydd y sesiwn gyntaf ar 21 a 22 Chwefror.
- Bydd pum modiwl arall yn rhan o gynllun peilot gan sawl darparwr gwahanol ar draws Cymru yn ystod 2007-2008 a thri arall yn 2008-2009.
- Yn ddiweddar, mae'r consortiwm wedi cyflwyno tendr ar gyfer ail gynllun peilot - Arwain y Dysgu - a dylem wybod y canlyniad erbyn diwedd Chwefror 2008.
- Y bwriad yw integreiddio'r Modiwl Craidd Hunanwerthuso, Myfyrio a Datblygiad Personol yn rhaglen arweinwyr canolig swamwac sy'n cael ei chynllunio a'i datblygu gan y Tasglu Arweinwyr Canolig. Bydd mwy o fanylion yn cael eu dosbarthu pan fydd y gwaith datblygu wedi'i gwblhau.

Mae mwy o fanylion am y rhaglen Athrawon Siartredig ar wefan CACC yn http://www.gtcw.org.uk/welcome.html.

Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

- Er 2004, mae swamwac wedi gweithredu rhaglen asesu CALU(HLTA) ar ran y chwe awdurdod sy'n aelodau.
- Cwblhaodd pum deg un o ymgeiswyr y rhaglen yn llwyddiannus yn Rownd 2 (2006-07) gan ennill statws CALU.
- Yn dilyn diwrnod panel dewis ym mis Rhagfyr 2007, derbyniwyd pum deg un o ymgeiswyr ar gyfer Asesu CALU yn 2007-08 (Rownd 3)..
- Mae gan bob un o'r chwe awdurdod ymgeiswyr yn y rhaglen.
- Mae pum aseswr CALU ychwanegol yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod digon o aseswyr hyfforddedig ar gael i gefnogi'r rhaglen lwyddiannus hon.

Os hoffech wybod mwy am y rhaglen hon, mae'r manylion cyswllt ar gyfer y person arweiniol ym mhob awdurdod sy'n rhan o'r Rhaglen Asesu CALU ar wefan swamwac yn http://www.swamwac.org/CPD/hlta.asp

Strategaeth Gyfathrebu
Mae'r consortiwm yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu da ac amserol. Bydd strategaeth gyfathrebu glir a chadarn a gymhwysir yn gyson yn cefnogi gweithrediad Cynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o gynnydd tuag at gamau gweithredu ac allbynnau a bod eu barn yn cael ei chlywed a'i hystyried. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu yn cynnwys sawl llinyn sy'n cwmpasu'r llif gwybodaeth am waith y consortiwm a'i gyflawniadau, rhwng unigolion, grwpiau'r consortiwm, awdurdodau a phartneriaethau rhanbarthol. Mae'r bwletinau hyn yn rhan o'n hymgyrch i wella cyfathrebu ynghylch gwaith y consortiwm. Gellir gweld y Strategaeth Gyfathrebu ar wefan swamwac yn www.swamwac.org

Newyddion…Newyddion…Newyddion…

Safonau Trothwy
Cafodd y Safonau Trothwy eu diwygio a byddant yn disodli'r safonau presennol o fis Medi 2007. Dylai penaethiaid sylwi y bydd yn rhaid i athrawon sy'n ymgeisio am asesiad yn Rownd 8 **gael** eu hasesu yn ôl y safonau diwygiedig. Mae'r wybodaeth am Rownd 8 ar gael ar wefan Teachernet. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r person arweiniol yn eich awdurdod neu ewch i www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/threshold

Arian i barhau
Mae'r broses o wneud cais am arian o Gronfa Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gwaith consortiwm ymhellach yn mynd yn ei blaen. Bwriedir cynnal cyfarfod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ddechrau mis Chwefror 2008 i egluro rhai o fanylion y cais, a'r gobaith yw y byddwn yn gwybod y canlyniad erbyn diwedd mis Mawrth.

Cynhadledd Addysg Gogledd Lloegr
Yng Nghynhadledd Addysg Gogledd Lloegr, daeth llawer i'r gweithdy ar weithio cydweithredol dan arweiniad swamwac. Roedd y gweithdy o dan gadeiryddiaeth Vernon Morgan gyda chefnogaeth Robert Barbour, Wyn Williams, Jeff Jones a Pauline Lewis. Ymhlith y cynadleddwyr yr oedd aelodau etholedig, penaethiaid, llywodraethwyr, cynrychiolwyr undebau llafur a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol. Cafodd y cyflwyniad ar waith consortiwm dderbyniad da gan ysgogi trafodaeth ddiddorol. Mae copi o'r cyflwyniad ar gael ar wefan swamwac yn www.swamwac.org

Arian Cronfa Strwythurol Ewrop i ranbarth Gorllewin Cymru a datblygu Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol arfaethedig ar gyfer de-orllewin Cymru
Bydd ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn arian 'Cydgyfeirio' - y gefnogaeth uchaf bosib o dan rownd nesaf rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop am y cyfnod 2007-2013. Mae rhanbarth Gorllewin Cymru'n cynnwys awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, sef pump o chwe awdurdod lleol swamwac. Yn gyffredinol, nod Rhaglen Gydgyfeirio CSE yw 'creu economi sgiliau uwch, wedi'i seilio ar wybodaeth, gyda chyflogaeth lawn, gweithlu medrus a hyblyg a busnesau ymatebol, sydd ar y blaen o ran datblygiad cynaliadwy.

Y prif ysgogwyr i gyflawni hyn drwy raglen CSE yw:
(a) Darparu'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol i bobl ifanc;
(b) Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael â segurdod economaidd;
(c) Gwella sgiliau i helpu busnesau ddringo'r gadwyn gwerth a chynyddu gwerth ychwanegol pob swydd, a thrwy hynny gynyddu cynhyrchedd ac enillion; ac
(ch) Moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus.

Eisoes nodwyd sawl prosiect, gyda'r gwaith o ddatblygu ceisiadau yn datblygu'n raddol.

O ran gwaith consortiwm, mae Grŵp 14-19 swamwac yn gweithio gyda phartneriaid ar gynigion ar gyfer prosiectau 14-16 ac 16+.

Yn ogystal, mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol, AB, AU, cyrff y Llywodraeth, y sector gwirfoddol a phartneriaethau eraill (gan gynnwys swamwac) yn Sir Gâr, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, wedi cwrdd i ystyried datblygu Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol (PDdR/RLP). Byddai'r PDdR yn gweithredu fel corff 'ymbarél', lle gallai rhai partneriaid neu'r holl bartneriaid ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys prosiectau gydag arian CSE. Mae'r gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar feysydd penodol megis Dysgu Parhaus i Oedolion. Y bwriad yw y bydd y partneriaid yn ceisio am arian Blaenoriaeth 4 CSE er mwyn datblygu'r bartneriaeth. Ceir mwy o wybodaeth am ddatblygu'r ceisiadau am arian, a'r Ffurflenni Cychwyn Prosiectau ar gyfer pob prosiect (wedi'u nodi o dan 'development proceeds') ar wefan WEFO yn http://www.wefo.wales.gov.uk

Rhaglen ddigwyddiadau'r consortiwm
Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth gychwynnol am ddigwyddiadau a allai fod o ddiddordeb. Bwriadwn ddiweddaru'r rhaglen yn rheolaidd, felly os ydych yn trefnu digwyddiadau y byddech yn hoffi iddynt fod ar gael i gydweithwyr ar draws awdurdodau swamwac, rhowch wybod i ni ac mi roddwn ni gyhoeddusrwydd iddynt mewn bwletinau yn y dyfodol a/neu ar y wefan.

Fel y gwelwch, mae llawer o ddigwyddiadau pwysig yn ystod y misoedd nesaf ac felly, er mwyn i bawb fanteisio, byddai'n ddefnyddiol petai pawb sy'n bwriadu trefnu digwyddiad gwaith y consortiwm yn cysylltu ag admin@swamwac.org i gadarnhau na fydd unrhyw ddyddiadau'n gwrthdaro.

Digwyddiadau gwaith y consortiwm - Tymor y Gwanwyn 2008

Teitl	Dyddiad/ Amser	Lleoliad	Cynulleidfa	Cyswllt
Peilot Dal Rhifedd	15 Ionawr 26 Chwefror 27 Chwefror 28 Chwefror 23 Medi	Y Llwyfan, Caerfyrddin a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne	Ysgolion a enwebir gan awdurdodau lleol	admin@swamwac.org
Asesu ar gyfer statws CALU	5 Chwefror 19 Chwefror 18 Mawrth	Canolfan Halliwell, Caerfyrddin	Ymgeiswyr a ddewiswyd	admin@swamwac.org
Cynhadledd Rhwydwaith 14-19 (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru)	6 Chwefror	Gwesty'r Metropole, Llandrindod	Holl Gydlynwyr a Hyrwyddwyr Ansawdd Rhwydwaith 14-19 ar draws Cymru	admin@swamwac.org
Ailgylchu: Defnyddio Sbwriel yn Ddychmygus i Greu Gweithiau Celf Anhygoel	7 Mawrth	Neuadd y Frenhines, Arberth	Athrawon Celf Cynradd ac Uwchradd	Michaela.walters@pembrokeshire.gov.uk Helen.morris@pembrokeshire.gov.uk Ruth.lee@pembrokeshire
Peilot Athrawon Siartredig 'Hunanwerthuso , Myfyrio a Datblygiad Proffesiynol'	Chwefror-Mehefin 2008	Y Llwyfan, Caerfyrddin	Cyfranogwyr a ddewiswyd	http://www.gtcw.org.uk

Digwyddiadau eraill a gefnogir gan waith y consortiwm

Teitl	Dyddiad /Amser	Lleoliad	Cynulleidfa	Cyswllt
Cynhadledd y Bartneriaeth Gymdeithasol Leol	17 Ionawr	Gwesty'r Metropole, Llandrindod	Aelodau Grwpiau Monitro Cytundeb y Gweithlu yr holl awdurdodau lleol	(Gweler yr adroddiad isod)
Cynhadledd RHAGORI y Gwanwyn **	27 Chwefror 10.00- 4.00	Stadiwm Liberty, Abertawe	Ysgolion RHAGORI	RHAGORI
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Lansiad LICC	6 Mawrth	Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd	Swyddogion Gwella Ysgolion yr Awdurdodau Lleol a Phenaethiaid	Gwahoddiadau gan LICC (gweler isod)

Gwahoddiadau i Lansio Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Mae LlCC wedi gofyn i benaethiaid a Swyddogion Gwella Ysgolion nodi'r dyddiad **6 Mawrth 2008** yn eu dyddiaduron ar gyfer lansio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Yn ôl yr hyn a ddeallwn, mae LlCC yn anfon gwahoddiadau i benaethiaid yn uniongyrchol a dylai pob pennaeth dderbyn gwahoddiad cyn bo hir.

Cynhadledd y Bartneriaeth Gymdeithasol Leol
Daeth cynrychiolwyr lleol o holl Grwpiau Monitro Cytundeb y Gweithlu (WAMGs) ar draws Cymru ynghyd i Gynhadledd y Bartneriaeth Gymdeithasol Leol ar 17 Ionawr 2008, yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod. Noddwyd y digwyddiad gan LCC, gyda hwyluswyr o Gymru gyfan, gan gynnwys hwyluswyr a ddarparwyd gan swamwac. Cynhyrchodd y cyflwyniadau defnyddiol a'r gweithdai strwythuredig drafodaeth eang ar faterion cenedlaethol a lleol o ran parhad y gwaith o roi Cytundeb y Gweithlu ar waith. Diben y gynhadledd oedd pwysleisio gwaith y partneriaethau cymdeithasol lleol (y WAMGs lleol), tynnu sylw at y cyflawniadau hyd yn hyn, a thrafod strategaethau ar gyfer datblygu'r agenda ailfodelu. Cadarnhawyd yn y digwyddiad y byddai nodyn gan Grŵp Monitro Cenedlaethol Cytundeb y Gweithlu (WAMG) yn cael ei gynhyrchu'n benodol ar y digwyddiad er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu trafodaethau defnyddiol â'r rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol. www.tda.gov.uk/remodelling/nationalagreement/WAGM.aspx

Wrth grynhoi'r digwyddiad, nododd y prif siaradwr, Brunni de la Motte, Swyddog Cenedlaethol Unsain, dair neges a gododd o'r trafodaethau yn y gweithdai:

1. Ymholiadau ynghylch pam nad oedd gan Gymru ei WAMG ei hun - cadarnhawyd bod y Cynulliad wedi llofnodi'r cytundeb ynghyd â phartneriaid eraill a bod 'cenedlaethol' felly yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Cymru a Lloegr.
2. Gormod o fentrau gwahanol - er bod y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod y byddai newid parhaus ac y gellir ystyried ailfodelu fel offeryn i reoli'r newid.
3. Partneriaethau Cymdeithasol Lleol – roedd rhai nad oedd yn gweithio o gwbl, ac eraill nad oedd yn gweithio'n effeithiol, ond roedd rhai'n gweithio'n dda a byddai'r profiadau a rannwyd yn y gynhadledd yn ddefnyddiol i bawb wrth symud ymlaen.

Cafodd cyflwyniad Siân Lewis ar brofiad Abertawe, gyda chyfeiriadau at waith consortiwm swamwac, dderbyniad da. Roedd cynadleddwyr wedi croesawu'n arbennig yr asesiad gonest o'r anawsterau a'r llwyddiannau, a'r syniadau defnyddiol a gyflwynwyd ar gyfer adennill y momentwm yn y bartneriaeth leol a sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer monitro.

Cysylltiadau

Grŵp y Penaethiaid
Caiff pob awdurdod ei gynrychioli gan 5 pennaeth a enwebir drwy'r gweithdrefnau arferol yn eu hawdurdod ac mae'r grŵp yn gweithredu ar y lefel strategol. Bydd cyfarfod nesaf grŵp y penaethiaid ar 22 Chwefror 2008 a bydd yr agenda'n cynnwys y diweddaraf ar waith y consortiwm; y diweddaraf gan LlCC ar y strategaeth pedagogeg; trafodaeth ar ymagwedd LlCC at ddatblygu uwch arweinwyr; a thrafodaeth ar waith CACC gyda'i Brif Weithredwr, Gary Brace.

Rydym yn gweithio tuag at ddarparu manylion cyswllt y penaethiaid ar Grŵp y Penaethiaid drwy wefan swamwac. Yn y cyfamser, ffoniwch Swyddfa'r Consortiwm os oes gennych unrhyw ymholiad.

Swyddfa'r Consortiwm a Hwyluswyr
Mae tîm bach o swyddogion/hwyluswyr proffesiynol a staff cefnogi yn cydlynu ac yn hwyluso'r gwaith ar ran awdurdodau swamwac, ac mae wedi'i leoli yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, yn adeilad newydd y Llwyfan. Mae symud i'r adeilad newydd yn creu cyfle i grwpiau ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod a mannau gwaith i ddatblygu gwaith y consortiwm.

Gallwch ffonio swamwac ar 01267 676840 neu e-bostio admin@swamwac.org

Cadw mewn Cysylltiad

Byddwn yn anfon bwletinau'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch cynnydd gwaith a llwyddiannau'r consortiwm, a byddwn yn datblygu gwefan swamwac ymhellach. Os na chawsoch Fwletin 1, mae ar gael ar wefan swamwac a bydd yr holl fwletinau yn y dyfodol yn cael eu rhoi arni.

Mae croeso i sylwadau ynghylch sut mae gwaith y consortiwm wedi'ch helpu chi, neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai eich helpu yn y dyfodol. Os oes gennych ddigwyddiadau y byddech yn hoffi eu cynnig i gydweithwyr ar draws awdurdodau swamwac, neu os oes gennych arfer da yr hoffech ei rannu drwy'r wefan, yna e-bostiwch admin@swamwac.org